**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M S Tribe | V A Holland | J W Jones |
| E T Kirchner | M W Locke | C L Philpott |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kelly Gillings | Cyfarwyddwr Rhanbarthol Trawsnewid, Partneriaeth Gorllewin Morgannwg |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C A Holley, P R Hood-Williams a/ac A J Jeffery
Aelodau Cyfetholedig(wyr): T Beddow
Swyddogion: Helen St John

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Diweddariad ar Raglen Trawsnewid Gorllewin Morgannwg**

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a Kelly Gillings, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Trawsnewid yn bresennol i roi'r diweddaraf i'r Panel ar y rhaglen waith dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys trefniadau llywodraethu, y Cynllun Ardal, ymgysylltiad, cynnydd a ffeithluniau am berfformiad.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y Panel sut y cytunwyd ar ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer partneriaethau rhanbarthol. Esboniwyd ei fod yn anodd i Lywodraeth Cymru (LlC) oherwydd mae pob rhaglen ym mhob rhanbarth yn amrywio, ond maent wedi cyrraedd pwynt lle maent wedi cytuno ar dempledi ar gyfer adrodd ar wybodaeth a mecanweithiau y cytunwyd arnynt.
- Nododd y Panel fod mesuriadau'n cael eu nodi ar gyfer rhai o'r pethau mae'r bartneriaeth yn ei wneud a gofynnwyd a ydynt yn edrych ar agweddau ariannol. Esboniwyd bod y bartneriaeth yn adrodd i LIG ar y mater hwn bob chwarter ar gyfer pob prosiect.
- Gofynnodd y Panel a oes cyn-filwyr yn rhan o rai o'r gweithgareddau hyn. Esboniwyd bydd gwaith yn cael ei wneud dros y flwyddyn nesaf gan nad yw'r bartneriaeth yn dda iawn am nodi nodweddion y boblogaeth o ran ymgysylltu ar hyn o bryd.

6 **Monitro Perfformiad**

Roedd Amy Hawkins, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi wedi rhoi'r diweddaraf i'r panel ynghylch yr adroddiad perfformiad ar gyfer mis Ionawr 2024 a nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau i dueddiadau ar gyfer data mis Chwefror.

Pwyntiau Trafod:

- Nododd y Panel fodd cyfleoedd ar gyfer seibiant wedi cynyddu a bydd gofalwyr yn elwa o hyn ac mae hynny'n gadarnhaol iawn.
- Teimlai'r Panel fod y Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) wedi bod yn llwyddiannus iawn. Gofynnodd y Panel pam yr oedd y PMC wedi derbyn nifer uchel o alwadau ffôn ym mis Ionawr. Esboniwyd bod y galw wedi cynyddu ac roeddent yn gobeithio bod mwy o ymwybyddiaeth.
- Trafododd y Panel sut y mae darparwyr gofal cartref allanol yn parhau i adrodd ar bwysau ariannol a gofynnwyd a oedd hyn yn broblem. Esboniwyd, er bod heriau o ran pwysau cost gweithredol parhaus, mae'r sector llawer mwy sefydlog.
- Trafododd y Panel Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) a'r pryder ynghylch asesiadau. Gofynnodd y Panel am effaith hyn ar unigolion ac esboniwyd bod risg o amddifadu o ryddid ac mae angen sicrhau bod y prosesau priodol ar waith er mwyn cymeradwyo hyn.

7 **Sesiwn Friffio ar Adolygiad Blynyddol o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2023-24**

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Dywedwyd bod yr adroddiad wedi bod i'r Cabinet lle cytunwyd i roi cynnydd chwyddiannol o 6% ar waith ar gyfer holl ffïoedd y Gwasanaethau Cymdeithasol o 1 Ebrill. Yn ogystal â hyn, cytunodd y Panel i'r Gwasanaethau i Oedolion gynnal ymgynghoriad ynghylch ffi untro ar gyfer gosod y Gwasanaeth Llinell Fywyd a chost i dalu am grog dlysau newydd.

8 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben yn 4.45 pm